

THEMA UN: YCHWANEGU GWERTH AT HUNANIAETH LEOL AC ADNODDAU NATURIOL A DIWYLLIANNOL	
AMCAN SY'N BENODOL I'R STRATEGAETH DATBLYGU LLEOL	BLAENORIAETHAU LEADER
1.1 Cefnogi a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Hwyluso datblygiad rhwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol; ➤ Dod o hyd i ffyrdd arloesol o ddehongli treftadaeth a diwylliant; ➤ Dod o hyd i ffyrdd arloesol o gasglu data blynyddol yn y sectorau twristiaeth a threftadaeth a diwylliant; ➤ Treialu ffyrdd o ddatblygu naws am le mewn cymunedau gwledig; ➤ Ymchwilio i ffyrdd arloesol o sicrhau bod digwyddiadau yn gynaliadwy yn ariannol, a threialu'r ffyrdd hynny; ➤ Dod o hyd i ffyrdd arloesol o hyrwyddo gwerth economaidd y Gymraeg fel offeryn marchnata mewn sectorau gwahanol, megis twristiaeth, a threialu'r ffyrdd hynny; ffyrdd newydd o gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar gyfleoedd yn y gweithle a hyrwyddo cyfleoedd gwaith; ➤ Dod o hyd i ffyrdd arloesol o godi ymwybyddiaeth ynghylch y sector bwyd a diod yn y sector twristiaeth, a threialu'r ffyrdd hynny, yn ogystal â datblygu cadwyni cyflenwi bwyd lleol.
1.2 Datblygu a gweithredu rhaglen ar gyfer buddsoddi yn yr ardal.	
THEMA DAU: HWYLUSO DATBLYGIAD CYN-FASNACHOL; PARTNERIAETHAU BUSNES A CHADWYNI CYFLENWI BYR	
2.1 Gwella gwytnwch cyflogwyr cynhenid.	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Profi a threialu ffyrdd newydd o wella gwytnwch busnesau gwledig, e.e. cynyddu mynediad at wybodaeth am y farchnad; hwyluso datblygiadau o ran cadwyni cyflenwi a threialu mynediad at ffynonellau cyllid amgen ar gyfer prosiectau arloesol, megis cyllido torfol;
2.2 Darparu cyngor a chymorth busnes wedi'u teilwra er mwyn cadw a datblygu.	



<p>2.3 Cynyddu cyfleoedd gwaith drwy gefnogi twf o ran cyflogaeth o fewn busnesau cynhenid.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Ymchwilio i ffyrdd newydd o annog entrepreneuriaeth/profi masnachu, a threialu'r ffyrdd hynny;
<p>2.4 Cefnogi pobl i fynd i waith.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Hwyluso ac ymchwilio i ffyrdd arloesol o ymgysylltu â chlystyrau a chyflogwyr allweddol i fapio cyfleoedd buddsoddi a recriwtio yn y dyfodol yn eu cadwyni cyflenwi priodol, a threialu'r ffyrdd hynny;
<p>2.5 Datblygu diwylliant mwy entrepreneuriaidd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Treialu dulliau arloesol o baru pobl ifanc â chyfleoedd gwaith yn y dyfodol; ➤ Ymchwilio i systemau ariannol cynaliadwy amgen, a threialu'r systemau hynny;
<p>2.6 Sicrhau bod y ddarpariaeth addysg yn gyson ag anghenion cyflogwyr, a'u bod yn llywio hynny.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Ymchwilio i ffyrdd arloesol o gysylltu bwyd a llety twristiaeth lleol, e.e. hamperi bwyd/cynnyrch lleol yn uniongyrchol/gwasanaethau cludfwyd lleol, ac ati;
<p>2.7 Cryfhau'r cysylltiadau rhwng busnesau bach a chanolig a chyfleusterau ymchwil.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Hwyluso a threialu ffyrdd arloesol o sicrhau bod addysg a hyfforddiant yn gyson ag anghenion busnesau gwledig; ➤ Cydgysylltu a threialu prentisiaethau ar y cyd mewn sector penodol, e.e. twristiaeth;
<p>2.8 Cynyddu cynhyrchiant, amrywiaeth ac effeithlonrwydd busnesau amaethyddiaeth a choedwigaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Hwyluso a threialu ffyrdd newydd o sicrhau bod sianeli cyfathrebu cadarn a rhwydweithiau cryf yn bodoli rhwng busnesau a'r byd academaidd; ➤ Hwyluso datblygiad rhwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol mewn perthynas ag amaethyddiaeth a choedwigaeth; ➤ Hwyluso ac ymchwilio i ddatblygiad cynnyrch arloesol yn y sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth drwy ymchwil ac astudiaethau dichonoldeb, a threialu hynny, a hwyluso ac ymchwilio i ffyrdd o gefnogi datblygiadau o ran cadwyni cyflenwi yn y sectorau garddwriaeth a choedwigaeth, a threialu'r ffyrdd hynny; ➤ Ymchwilio i fodel ar gyfer ffermydd hybu a thenantiaethau tymor byr i gefnogi pobl ifanc i ddod i'r sector, a threialu hynny.



THEMA TRI: ARCHWILIO FFYRDD NEWYDD O DDARPARU GWASANAETHAU LLEOL ANSTATUDOL	
3.1 Cefnogi pobl i fynd i waith.	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Ymchwilio i ffyrdd arloesol o ddarparu gofal plant fforddiadwy a dwyieithog, a threialu'r ffyrdd hynny; ➤ Ymchwilio i ffyrdd arloesol o gyllido darpariaeth gwasanaethau lleol, gan gynnwys gwirfoddoli, a threialu'r ffyrdd hynny; ➤ Cefnogi ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau anstatudol; ➤ Hwyluso a threialu ffyrdd arloesol o sicrhau mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus.
3.2 Sicrhau mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig drwy ddatblygu dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau a chefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol.	
THEMA PEDWAR: YNNI ADNEWYDDADWY AR LEFEL GYMUNEDOL	
4.1 Manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd yn sgil ynni gwyrddach.	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Hwyluso ac ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu cronfeydd budd i'r gymuned yn sgil cynnyrch ynni adnewyddadwy; ➤ Ymchwilio i gynnyrch cynaliadwy sy'n gysylltiedig â'r sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth; ➤ Ymchwilio i ddichonoldeb ynni adnewyddadwy ar ffermydd; ➤ Hwyluso mynediad at fesurau cymorth sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni i drigolion mewn ardaloedd o dlodi tanwydd.
4.2 Cynyddu cynhyrchiant, amrywiaeth ac effeithlonrwydd busnesau amaethyddiaeth a choedwigaeth.	
THEMA PUMP: MANTEISIO AR DECHNOLEG DDIGIDOL	
5.1 Sicrhau mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig drwy ddatblygu dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau a chefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol.	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Hwyluso a threialu ffyrdd arloesol o fynd i'r afael ag allgáu digidol a sicrhau pwyntiau mynediad TGCh cyhoeddus; ➤ Ymchwilio i ffyrdd o sicrhau bod busnesau yn gallu manteisio ar y buddion sy'n deillio o argaeledd band eang cyflym iawn, a threialu'r ffyrdd hynny.
5.2 Cefnogi ac annog mwy o fusnesau bach a chanolig i fanteisio ar dechnolegau newydd, a'u defnyddio.	

